**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15 Rhagfyr 2014**

## Y PANEL GWEITHREDOL: NEWIDIADAU I'R CYLCH GORCHWYL

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw gofyn i'r Aelodau gymeradwyo newidiadau i gylch gorchwyl y Panel Gweithredol.

## Cefndir

2 Mae'r Panel Gweithredol yn bodoli ers 2002, ac mae'r cylch gorchwyl wedi cael ei ddiwygio'n rheolaidd yn y cyfamser. Cafodd ei ddiwygio ddiwethaf yn 2009, pan sefydlwyd y Pwyllgor Archwilio.

## Gwybodaeth

3 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sicrhau gwelliant parhaus a gwella'r modd y caiff ei swyddogaethau eu cyflawni mewn perthynas â gwahanol faterion megis effeithiolrwydd strategol, ansawdd gwasanaethau ac argaeledd; cynaliadwyedd ac arloesi.

4 Mae'r cylch gorchwyl yn atodiad 1 wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru).

## Argymhelliad

5 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r cylch gorchwyl fel y mae yn atodiad 1.

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**CYLCH GORCHWYL Y PANEL GWEITHREDOL**

## 1. Aelodaeth

**1.1** Bydd y Panel Gweithredol yn cynnwys 14 o aelodau fel a ganlyn:

Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod a wahoddir o blith cynrychiolwyr y chwe awdurdod cyfansoddol.

## 2. Cylch Gorchwyl

**2.1** Bydd y Panel, yn ad hoc, yn cyfarfod i ymgymryd â swyddogaethau a ddirprwyir iddo gan yr Awdurdod, e.e. wrth benodi'r Prif Swyddog Tân ac Uwch Swyddogion Tân eraill ac ymdrin ag unrhyw faterion disgyblaethol sy'n ymwneud â'r swyddi hyn a'r deiliaid swydd. Bydd y Panel yn ymdrin â materion cyfansoddiadol a materion eraill y mae'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd yn eu hystyried yn addas i'w cyfeirio i'r Panel. Bydd y materion eraill a fydd yn codi o dro i dro nad ydynt yn rhai brys ond sydd fodd bynnag yn rhai i'w hystyried gan banel bychan o aelodau'n cael eu trin gan y Panel ac yna'n cael eu cyflwyno i'w hargymell i gyfarfod llawn o'r Awdurdod. Ceisir cael cymeradwyaeth y Cadeirydd cyn galw unrhyw gyfarfod.

**2.2** Bydd y Rheolau Sefydlog ynghylch llywio cyfarfod o'r Awdurdod hefyd yn berthnasol i gyfarfodydd y Panel Gweithredol.

**2.3** Bydd y **Panel Gweithredol** ar ran yr Awdurdod yn:

i. bod yn banel priodol i wrando ar gamau disgyblu a ddygir yn erbyn y Prif Swyddog Tân;
ii. ymdrin â rhai materion pensiwn yn ymwneud â swydd y Prif Swyddog Tân;
iii. bod yn Banel Penodi wrth benodi'r Dirprwy Brif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol;
iv. gwneud argymhellion, fel y cyfyd yr angen, ynghylch penodi (a) Clerc i'r Awdurdod a (b) Trysorydd i'r Awdurdod;
v. bod yn banel apêl fel a nodir yng ngweithdrefnau'r awdurdod ar ddisgyblu, galluogrwydd a chwyn;
vi. ar ran yr Awdurdod, defnyddio pwerau dewisol dan Gynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru);
vii. ar ran yr Awdurdod, defnyddio pwerau dewisol dan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
viii. ar ran yr Awdurdod, ac os oes angen, penderfynu a/neu wneud argymhellion ar faterion yn ymwneud â phersonél, wedi ymgynghori â'r Cadeirydd;

ix. ymdrin ag unrhyw bolisi a/neu fater cyfansoddiadol ac unrhyw fater brys arall fel y barno'r Prif Swyddog Tân/Clerc/Trysorydd yn ddoeth, wedi ymgynghori o flaen llaw â'r Cadeirydd.

2.4 Hefyd, bydd y Panel yn cyflawni swyddogaethau'r awdurdod dan adrannau 1 a 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, gan gynnwys:

(1) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau.

(2) Wrth gyflawni ei ddyletswydd dan isadran (1), rhaid i awdurdod ystyried yn arbennig yr angen i wella'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau o ran—

(a) effeithiolrwydd strategol;

(b) ansawdd gwasanaethau;

(c) argaeledd gwasanaethau;

(ch) tegwch;

(d) cynaliadwyedd;

(dd) effeithlonrwydd; ac

(e) arloesi.